

Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

COFNODION CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD



Amser: 8.30am – 10.30am
Dyddiad: 25 Tachwedd 2020
Lleoliad: Microsoft Teams
Yn bresennol: Sarah Griffiths - Cadeirydd (SG), Y Cynghorydd Sarah Merry, Y Cynghorydd Chris Weaver, Mel Godfrey (MG), Mike Tate (MT), Richard Portas (RP), Rob Green (RG), Neil Hardee (NH), Angela Jardine (AJ), Andrew Skinner (AS), Nic Naish (NN), John Hayes (JH), Marc Belli (MB), Ivor Gittins (IG), Jane Marchesi (JM), Suzanne Williams (SW), Ann Griffin (AG), Jane Setchfield (JS), Mari Phillips (MP), David Harris (DH), David Silver (DS), Karen Dell'Armi (KA), Kevin Hart (KH), Adrian Dinsmore (AD), Catherine Power (CP), Wayne Murphy (WM), Louise Bloom – Clerc (LB)

Ymddiheuriadau: Ian Allwood (IA), Cllr Joel Williams (JW), Abigail Beacon (AB), Sara Allen (SA), Sarah Parry (SP),

Cyf	Casgliadau/Camau Gweithredu	Pwy
1	Ymddiheuriadau a chroeso	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a derbyniodd ymddiheuriadau.	
2	Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi	
2.2	Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi 2020 fel cofnod cywir.	
2.3	<u>Materion yn codi</u> Cofnod 4.3: <ul style="list-style-type: none">Roedd neges yn egluro swm y grantiau ar gyfer ysgolion unigol wedi'i anfon.Diweddarwyd manylion cyswllt y pennaeth ar gyfer negeseuon. <p>Dywedodd NH y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal ddydd Gwener 4 Rhagfyr i drafod y defnydd canolog o £104k, a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru i liniaru gostyngiadau yn y Grant Amddifadedd Disgyblion. Byddai tri chynrychiolydd cynradd, un cynrychiolydd uwchradd ac un cynrychiolydd ysgol arbennig yn mynychu. Nododd KH fudd net o tua £170k, gan ofyn ai egwyddor y drafodaeth fyddai edrych ar amddiffyn ysgolion sy'n dioddef colledion. Cadarnhaodd NH y byddai ateb pragmatig yn cael ei geisio yn y cyfarfod. Tynnodd sylw at y nifer sylweddol o blant sydd bellach yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (13,600 o 11,500) gan ddwysau'r colledion, ac argymhellodd y dylid ystyried hyn ym mlynnyddoedd ariannol y dyfodol er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cynnydd sylweddol yn y dyraniadau a wneir,</p>	

	<p>er mwyn rhagweld ffigurau'n gywirach wrth symud ymlaen.</p> <p>Cofnod 4.4: Dosbarthodd NH daenlen ar Dechnoleg Addysg TGCh yn dangos dadansoddiad manwl o wariant.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadwyd 0.5% (£1.2m) o gyllidebau dirprwyedig ysgolion • Cadwyd £524k gan Lywodraeth Cymru i brynu donglau ac i dalu am gontract cenedlaethol ar gyfer telathrebu tan ddiwedd Mawrth 2021 ar gyfer dyfeisiau Wi-Fi a ddosbarthwyd yn ystod yr haf • Roedd arian yn cael ei roi gan Lywodraeth Cymru am dair blynedd, £15m ym mlwyddyn un, £30m ym mlwyddyn dau ac £20m ym mlwyddyn tri. • Cedwir swm o gyllideb ddirprwyedig ysgolion yn 2021/22 • Cynhelir trafodaethau pellach ar fodolau ariannu yn y dyfodol ynghylch dyfeisiau a seilwaith ar draws ysgolion • Datgelodd archwiliad o agweddau clyweledol fod angen buddsoddi mewn byrddau gwyn a sgriniau • Bydd y grŵp TGCh yn ystyried datblygu cymorth TGCh mwy cyson ar draws ysgolion a gweithio gyda thîm cymorth TGCh canolog newydd <p>Canmolodd MB waith caled swyddogion Caerdydd ond mynegodd bryderon ynghylch oedi wrth ddosbarthu dyfeisiau. Rhoddodd NH sicrwydd y byddai'r holl ddyfeisiau a archebwyd yn cael eu dosbarthu yn ystod y flwyddyn ariannol hon.</p> <p>Cofnod 4.5: Roedd gwybodaeth am bigiadau fflw i ysgolion wedi'i rhannu mewn fforymau i benaethiaid a Chadeiryddion llywodraethwyr.</p>	
3	Adroddiad Luke Sibieta, ariannu ysgolion yng Nghymru	
3.1	<p>Amlinellodd RG gyflwyniad ar ariannu ysgolion yng Nghymru, gan grynhoi'r adroddiad gan Luke Sibieta. Daeth pedair prif thema ar wella'r system ariannu ysgolion i'r amlwg:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penderfyniadau o ran gwario yn seiliedig ar dystiolaeth empirig • Tegwch a thryloywder wrth ariannu ysgolion a meysydd • Galluogi gwaith craffu effeithiol trwy ddata cyson a thryloyw • Disgwyliadau clir ar gostau'r dyfodol drwy'r system gyfan <p>Canmolodd NH yr adroddiad a chytunwyd i anfon ymateb gan y fforwm ar argymhellion. Bydd NH a RG yn paratoi ac yn dosbarthu drafft yn dilyn y cyfarfod. Argymhellodd AJ gynnwys y pwysau ychwanegol sydd wedi codi oherwydd Covid-19 yn yr ymateb a bod argymhellion yn cael eu hadolygu'n barhaus.</p>	NH a RG
4	Hawliadau Covid 19/Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru	
4.1	<p>Rhoddodd RG gyflwyniad ar Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru, y cyflwynir gwariant misol a hawliadau incwm net chwarterol yn ei herbyn ar gyfer costau Covid-19 a cholledion incwm. Roedd £500m ar gael i ALI ledled Cymru, yn bennaf drwy gronfa Caledi Llywodraeth Cymru. Mae rhai dyraniadau arian wedi'u neilltuo ar gyfer prydau ysgol am ddim, glanhau ysgolion a darpariaeth</p>	

	<p>gofal plant yn ystod y gwyliau (a chostau eraill nad ydynt yn gostau Addysg).</p> <p>Nododd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynwyd hawliadau gwariant hyd at fis Hydref (gan gynnwys mis Hydref) • Cyflwynwyd hawliadau incwm hyd at fis Medi (gan gynnwys mis Medi). • Hawliadau nodweddiadol o ran colli incwm sy'n gysylltiedig ag arlwy, gosodiadau a gofal plant. • Bydd RG yn ysgrifennu'n fuan at benaethiaid yn rhoi gwybod bod y dyddiad cau ar gyfer hawliadau gwariant ym mis Tachwedd • Rhagwelir yr hawliad incwm nesaf ym mis Ionawr 2021. • Mae cwmpas hawliadau gwariant wedi'i leihau ac nid yw'n cynnwys adnoddau cyffredinol, postio, argraffu a TGCh mwyach. • Cymeradwywyd yr hawliad incwm ar gyfer chwarter 1 yn llawn. 	
4.2	<p><u>Cyllidebau a balansau ysgolion</u></p> <p>Fel rhan o'r broses hawlio, bydd balansau ysgolion a gedwir ar ddiwedd y flwyddyn yn cael eu hadolygu. Anogir ysgolion i fonitro eu sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn yn ofalus ac ystyried a ellid amsugno costau neu eu gwrthbwyso yn erbyn arbedion yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Mae swyddogion rheoli ariannol lleol wedi cynnal ymarfer i nodi arbedion a wnaed ar draws ysgolion yn ystod y pum mis cyntaf. Mae sefyllfaoedd alldro'n cael eu cwblhau ar hyn o bryd a byddant yn cael eu hadolygu er mwyn rhagweld cyfanswm tebygol balansau ysgol ar ddiwedd y flwyddyn a'r rhai sydd mewn perygl o ddiffyg, bydd camau gweithredu sy'n deillio o hyn yn cael eu hystyried. Ar hyn o bryd mae gwargedion sylweddol wedi dod i'r amlwg gyda dwy ran o dair o ysgolion â balans dros ben cyfunol o tua £5m o gymharu â chyllidebau a gynlluniwyd o £300,000.</p> <p>Rhannodd KH bryderon am y balansau dros ben gormodol gan argymhell y dylid hysbysebu hyn yn ehangach i benaethiaid yng Nghaerdydd a gofynnodd unwaith y cafwyd y darlun llawn pa gamau fyddai'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth. Dywedodd RG fod camau wedi'u rhoi ar waith gyda rhai ysgolion a oedd â balansau dros ben am sawl blwyddyn yn olynol ac y byddai'r rhain yn cael eu hadolygu ymhellach. Byddai'r gwaith o weithredu trothwyon a sicrhau y glynir wrthynt yn cael eu hadolygu. Fodd bynnag, mae ansicrwydd enfawr y flwyddyn nesaf ynglŷn â chostau ac arian gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r ffordd y mae balansau'n cyd-fynd ag ymarferion cynllunio cyllideb barhaus yn cael ei hystyried, ynghyd â chyfraniad ar y cyd gan ysgolion tuag at sefyllfa cyllideb y Cyngor. Byddai'r Gronfa Gyd-gyflenwi (CGG), Dileu Swyddi (DS) a'r Taliad Gwella Anghenion Cymhleth (TGAC) hefyd yn cael eu hystyried.</p> <p>Tynnodd NN sylw at grantiau a ddaeth i ben eleni, gan dynnu sylw at y ffaith y gallai ysgolion gadw arian i barhau â'r darpariaethau. Fe'i holwyd am effeithiau posibl tynnu arian y Grant Amddifadedd Disgyblion yn ôl gan bartner gwella a dywedodd fod yr arian yn hanfodol. Cytunodd RG fod rhai grantiau wedi bod yn destun adolygiad ers nifer o flynyddoedd ac mae agweddau anhysbys yn achosi ansicrwydd. Byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn cyfarfod cyllid CCAC yr wythnos nesaf. Byddai mwy o wybodaeth am grantiau gyda'r</p>	

	<p>setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol ar gael ddiwedd mis Rhagfyr a chyda'r setliad terfynol ym mis Mawrth.</p> <p>Tynnodd NN sylw at y ffaith bod rhai ysgolion wedi dymuno gwario arian ar atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau ond nad ydynt wedi gallu gwneud hynny, oherwydd oedi wrth weithgynhyrchu neu fewnforio nwyddau. Yn ogystal, caiff toriadau eu gwneud yn flynyddol i'r Grant Gwella Addysg, sy'n effeithio ar y cyfnod sylfaen a staffio.</p> <p>Tynnodd MB sylw at gostau nwy/dŵr/trydan uwch mewn tywydd oerach, yn enwedig gyda ffenestri ar agor i sicrhau awyru digonol mewn perthynas â Covid-19 a chostau gwresogi i sicrhau bod ystafelloedd yn gynnes. Cwestiynodd gostau CBAC gyda 75% yn cael ei gadw oddi wrth ysgolion er na fyddai arholiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal. Mynegodd bryderon am arian a ymrwymwyd gan ysgolion heb unrhyw sicrwydd o'i gael yn ôl. Awgrymodd MT y byddai MB yn codi'r pwyntiau yn y gweithgor er mwyn cael argymhellion a nododd y byddai costau'n parhau ar gyfer cyfarfodydd, hyfforddiant a chymedroli allanol.</p> <p>Adleisiodd JH yr ansicrwydd enfawr y flwyddyn nesaf gan annog ysgolion i gymryd pwyll gyda balansau dros ben, mae nifer o ysgolion wedi bod yn agos at neu mewn diffyg, heb allu gwario. Mae angen gweld y darlun llawn cyn gwneud penderfyniad ar wargedion gormodol.</p> <p>Bydd RG yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran cyfarfod CCAC a balansau ysgolion ym mis Ionawr.</p>	RG
5	Hunanasesiad Rheoli Risg (HRhR)	
5.1	<p>Rhoddodd CP a SP gyflwyniad yn tynnu sylw at y ffaith y byddai'r HRhR a gynhelir eleni yn dangos parch a dealltwriaeth o ran amgylchedd ysgolion. Bydd yr adran archwilio yn ymgysylltu ag ysgolion o bell mewn cysylltiad â rheolaethau a rheoli risgiau.</p> <p>Nododd CP fod hunanasesiadau ysgolion wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd. Mae categorïau'r Hunanasesiad Rheoli Risg wedi esblygu o bedwar categori yn 2017 sef Staff Cyrff Llywodraethu ac Ysgolion, Gosod y Gyllideb, Gwerth am Arian a Diogelu Arian Cyhoeddus i saith categori yn 2020 sef Llywodraethu, Rheoli Pobl, Parhad Busnes a Rheoli Asedau, Cyflogres a Threuliau, Comisiynu a Chaffael, Incwm a Dyledwyr, diogelwch TGCh a Rheoli Data. Bydd y categorïau newydd yn helpu ysgolion i nodi eu cryfderau a thargedau penodol o ran gwelliant yn eu hunanasesiad, gan ddangos sut mae eu HRhR yn cymharu â chanfyddiadau dilynol yr adroddiad archwilio mewnol.</p> <p>Mae'r adran archwilio'n ymgysylltu ag ysgolion gan ddefnyddio dull cymesur, pragmatig wedi'i dargedu. Rhoddir barn archwilio yn flynyddol ar yr amgylchedd rheoli mewn ysgolion a'r Cyngor, yn seiliedig ar roi lefel resymol o sicrwydd i'r Cyngor. Cynhelir adolygiad allanol bob pum mlynedd. Mae rhai ymarferion wedi'u targedu wedi'u cynnal, y llynedd cwblhawyd hunanasesiad risg wedi'i dargedu o ran rheoli gwrth-dwyll ym mhob ysgol a chwblhawyd hunanasesiad risg o ran rheoli llywodraethu TGCh mewn ysgolion uwchradd.</p> <p>Amlinellwyd amserlenni HRhR fel a ganlyn:</p>	

	<ul style="list-style-type: none"> • 30 Tachwedd 2020 - Templedi HRhR i'w cyhoeddi • 18 Rhagfyr 2020 – Gofyn am gael ffurflenni HRhR wedi'u cwblhau yn ôl • lonawr i Fawrth 2021 – Archwiliad i adolygu ffurflenni a gohebu gydag ysgolion os bydd ymholiadau <p>Byddai ymgysylltu o bell ag ysgolion yn dechrau ym mis Ebrill 2021.</p> <p>Gwahoddwyd cwestiynau a dywedodd yr aelodau fod yr amserlenni'n afrealistig ar fyr rybudd, bod penaethiaid yn brysur yn rheoli materion sy'n ymwneud â COVID a phwysau eraill. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i ysgolion gyflwyno eu ffurflenni HRhR erbyn dyddiad ym mis Ionawr 2021, i'w gadarnhau yn y cais e-bost. Byddai'r dogfennau allweddol a geisir yn cynnwys rhestr yr awdurdod, cofnodion a rheoliadau ariannol ysgolion. Gofynnid am sicrwydd gan benaethiaid a llywodraethwyr yn eu hymateb a byddai meysydd wedi'u targedu yn cael eu hystyried.</p> <p>Cadarnhaodd MT y disgwylir adborth gan Undebau o ran sicrhau gwyliau Nadolig di-dor i ysgolion gyda chyswllt wedi'i oedi, gyda chefnogaeth swyddogion.</p>	
6	Adnewyddu Asedau	
6.1	<p>Rhoddodd RP gyflwyniad ar y gyllideb a gwariant, a nododd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynyddodd gwariant ar gomisiynu Asedau o £8.490m yn 2019/20 i £16.88m yn 2020/21 • Cynyddodd dyraniad y gyllideb o £14.875m i £16.88m oherwydd bod arian wedi dod i law yn hwyr gan Lywodraeth Cymru • Comisiynwyd gwaith o werth uwch, alldro disgwylidig yn 2020/21 o £10.87m • Diben yr holl waith a gomisiynir yw cadw adeiladau'n ddiogel, eu hamddiffyn rhag y tywydd, eu cadw'n gynnes. • Mae'r prif flaenoriaethau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd • Bwriedir gwneud gwerth £7.9m/£8m arall o waith cynnal a chadw ac iechyd a diogelwch brys, a gwerth £3m o waith diogelu 	
6.2	<p>Cronfa Hapddigwyddiadau</p> <p>Gan fod ymatebion yr arolwg ar y Gronfa Hapddigwyddiadau'n amhendant, bydd y gronfa'n parhau i gael ei monitro a'i hadolygu'n ddiweddarach os bydd angen.</p>	
6.3	<p><u>Newidiadau i wasanaethau</u></p> <p>Nododd RP:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penodwyd Cyfarwyddwr Cynorthwyol newydd, Donna Jones ar gyfer Ystadau'r Sir • Mae'r holl waith, diweddariadau, uwchgyfeirio, cerrig milltir a chyfathrebu bellach yn cael ei wneud drwy Un Drws Ffrynt. • Mae Cyflwr ac Addasrwydd wedi rhannu, mae swyddogion efydd wedi'u 	

	<p>symud, mae swyddogion cynllun trefniadaeth ysgolion yn edrych ar waith o ran addasrwydd ac nid cyflwr</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynigir proses gwaith brys newydd 	
6.4	<p><u>Adroddiad Adnewyddu Asedau</u></p> <p>Amlinellodd RG yr adroddiad, gan nodi llithriant (arian a ddadleolir a gaiff ei gario ymlaen i flwyddyn yn y dyfodol) oherwydd dyraniadau grant hwyr gan Lywodraeth Cymru yn 2018/19 a 2019/20.</p> <p>Gan y tybir bod grant Cynnal Cyfalaf Llywodraeth Cymru wedi'i golli oherwydd ail-flaenoriaethu arian cyhoeddus ledled Cymru, bydd cyfran o'r arian buddsoddi i arbed (£25m) yn cael ei defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Nodwyd bod gwaith yn cael ei gomisiynu a'i ddatblygu'n gyflymach. Mae prosesau angenrheidiol ar waith ar gyfer digonolrwydd a phroffil defnydd.</p> <p>Dywedodd RP fod rhaglen waith flynyddol wedi'i chyhoeddi sy'n nodi rhestr lawn o gynlluniau. Caiff cynlluniau eraill a gynhelir eu hychwanegu at y rhaglen. Mae arolygon ar yr ystâd yn parhau.</p> <p>Yn dilyn ymholiad gan DH ar waith nad yw wedi'i gynnwys yn y rhaglen, esboniodd RP fod gwaith yn cael ei flaenoriaethu; na fyddai rhywfaint o'r gwaith y gofynnwyd amdano'n flaenorol yn y rhaglen am y flwyddyn ac argymhellodd y dylid cofnodi'r gwaith hanesyddol drwy'r system Un Drws Ffrynt.</p> <p>Canmolodd yr Aelodau'r gwelliannau a wnaed ond gan fynegi siom o ran gwaith nas trefnwyd fel y cytunwyd yn flaenorol ac awgrymu y dylid cryfhau'r gwaith o gyfathrebu â phenaethiaid a chyrrff llywodraethu ynghylch yr Un Drws Ffrynt a'r gwaith i'w wneud. Esboniodd RP fod y system Un Drws Ffrynt hefyd ar gael drwy'r we.</p>	
7	DS, TGAC, CGG	
7.1	<p><u>TGAC</u></p> <p>Nododd RG fod y twf a'r pwysau ariannol yn parhau gyda chynnydd o 15% yn 2020/21 gyda gorwariant cyfredol o £514,000 ar y gyllideb TGAC ar y cyd. Mae gwariant hanesyddol yn dangos gorwariant amcanestynedig o £1,045,000 ar ddiwedd y flwyddyn a fyddai'n cael ei adennill o ysgolion Cynradd ac Uwchradd.</p>	
7.2	<p><u>DS</u></p> <p>Dywedodd RG fod tanwariant wedi'i nodi ar hyn o bryd gyda chostau o £117k o ran naw ymadawr. Os bydd y tanwariant yn parhau, cynigir clustnodi £500,000 i wrthbwysu'n rhannol gorwariant Addysg ar ddiwedd y flwyddyn, sydd â heriau gan gynnwys galw mawr am ddarparu prydau ysgol am ddim.</p>	
7.3	<p><u>CGG</u></p> <p>Tynnodd RG sylw at danwariant posibl o £1.130m a diffyg a gariwyd ymlaen o £499,000 i 2020/21. Hyd yma mae Llywodraeth Cymru wedi ad-dalu costau asiantaeth/yswariant mewn perthynas ag absenoldeb sy'n gysylltiedig â COVID,</p>	

	gan leihau'r angen cyffredinol i hawlio o'r gronfa. Caiff y sefyllfa ei monitro'n ofalus hyd at ddiwedd y flwyddyn, gofynnir i aelodau CGG barhau i ddychwelyd yr holl hawliadau am ad-daliadau drwy gydol y flwyddyn er mwyn gallu gwneud gwaith monitro'n gywir yn ystod y flwyddyn.	
8	Unrhyw Fater Arall	
8.1	<p>Mynegodd DH bryderon nad oedd arian Band A a B nac arian yn y system yn ddigonol i fodloni anghenion diwygio ADY, TGAC, darpariaeth Gymraeg, dysgwyr sy'n agored i niwed a lles plant a staff. Argymhellodd y dylid cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r anghenion a wynebir. Deellir yn llawn y pwysau ariannol ledled Caerdydd, ond mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried yr effaith ar ysgolion, plant a staff. Cynigiodd RG ymgorffori'r adborth yn yr ymateb i Lywodraeth Cymru, mewn cysylltiad â'r adroddiad gan Luke Sibieta.</p> <p>Tynnodd RP sylw at waith sy'n cael ei wneud ar ysgolion arbennig a darpariaethau prif ffrwd gydag adborth gan y gweithgor ADY ac argymhellodd y dylid ystyried hyn yn yr ymateb.</p>	NH a RG
8.2	<p>Yn anffodus, cyhoeddodd SG y byddai'n rhoi'r gorau i fod yn Gadeirydd y Fforwm Cyllidebau Ysgolion gan y bydd yn dechrau swydd newydd ym mis Ionawr. Dywedodd ei bod wedi mwynhau gweithio gyda'r Aelodau a'i bod wedi bod yn fraint llywio trafodaethau gyda'r fforwm. Myfyriodd ar y pwysigrwydd o wrando ar ein gilydd, deall y pwysau ar wahanol fathau o ysgolion a chydweithio er budd plant ledled y ddinas a thynnodd sylw at y pwysigrwydd o fynd i'r afael ag amddifadedd ac anghydraddoldeb.</p> <p>Diolchodd NH i SG ar ran yr awdurdod lleol a'r ysgolion am ei chyfraniad at y Fforwm Cyllideb Ysgolion. Canmolodd ei phroffesiynoldeb a'i ffordd ddigyffro o ddelio â heriau, gan alluogi llawer o waith i gael ei wneud. Mae wedi sicrhau gwell dealltwriaeth o'r ddinas a materion ehangach, sydd wedi bod o fudd i bob trafodaeth yn y fforwm, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n briodol ar gyfer /disgyblion ac ysgolion ledled y ddinas. Dymunodd y fforwm a'r awdurdod lleol bob lwc iddi yn ei dyfodol a'i rôl newydd.</p> <p>Bydd NH yn ysgrifennu at yr aelodau ynghylch swydd y Cadeirydd cyn y cyfarfod nesaf.</p>	NH
9	Dyddiad y cyfarfod nesaf	
9.1	20 Ionawr 2021	

a

Y GWASANAETH ADDYSG:

CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD



Amser: 8.30am – 10.30am
Dyddiad: 25 Tachwedd 2020
Lleoliad: Gwahoddiad Microsoft Teams

DRAFT AGENDA

Cyf	Eitem	Categori	Yn Arwain
1	Ymddiheuriadau a chroeso i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion (FfCY)	Eitem sefydlog	Cadeirydd
2	Cofnodion y cyfarfod blaenorol (23 Medi 2020) a materion yn codi:	Eitem sefydlog (papurau i ddilyn)	Cadeirydd
3	Adroddiad Luke Sibieta, ariannu ysgolion yng Nghymru	Gwybodaeth a Thrafodaeth (cyflwyniad)	Rob Green, Neil Hardee
4	Diweddariadau <ul style="list-style-type: none">Hawliadau COVID-19Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru (LIC)	Gwybodaeth a Thrafodaeth (papurau ynghlwm)	Neil Hardee, Rob Green
5	Hunanasesiad Rheoli Risg (HRhR)	Gwybodaeth a Thrafodaeth (cyflwyniad)	Sue Powell/Chris Pyke
6	Adnewyddu Asedau	Gwybodaeth a Thrafodaeth (cyflwyniad)	Richard Portas
7	Dileu Swyddi (DS), Taliad Gwella Anghenion Cymhleth (TGAC), Cronfa Gyd-gyflenwi (CGG)	Gwybodaeth a Thrafodaeth (papurau ynghlwm)	Rob Green/
8	Unrhyw Fater Arall	Eitem sefydlog	Cadeirydd

Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol -

20 Ionawr 2021
17 Mawrth 2021
12 Mai 2021
7 Gorffennaf 2021

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Fforwm Cyllideb Ysgolion Caerdydd
Diweddariad Dileu Swyddi

Dyddiad y cyfarfod:	25 Tachwedd 2020
Amser y cyfarfod:	8.30am
Lleoliad:	Microsoft Teams

1. Diben yr adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad ar y sefyllfa alldro arfaethedig yn erbyn y gyllideb dileu swyddi gyfun ar gyfer 2020/21.

2. Cefndir a Chyd-destun

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, mae swm o £1 filiwn wedi ei neilltuo fel cyllideb gyfun o fewn y gyllideb ysgolion gyffredinol. Clustnodwyd yr arian hwn ar gyfer unrhyw ddiswyddiadau rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, sydd o fewn meini prawf y Cyngor ar gyfer ariannu o'r gyllideb gyfun. Mae cyfanswm y gyllideb sydd ar gael yn unol â'r gyllideb a ddelid yn ystod y flwyddyn flaenorol. Y gwariant terfynol a gafwyd yn ystod 2019/20 oedd £1.230 miliwn, sy'n adlewyrchu gorwariant o £230,000. Cafodd y gorwariant hwn ei wrthbwyso gan y defnydd o gronfeydd wrth gefn a thanwariant yn erbyn cyllidebau cyfun eraill.

3. Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r sefyllfa bresennol, yn unol â gwybodaeth a ddarparwyd gan Adnoddau Dynol a chostau a ysgwyddwyd ar y cyfrifylfr ariannol hyd yma, yn dangos costau ymadael gwerth £117,000. Mae'r swm wedi'i rannu fel a ganlyn:

Costau/rhifau'r swyddi sy'n cael eu dileu	Ysgolion Cynradd	Ysgolion Uwchradd	Ysgolion Arbennig	Cyfanswm
Staff Addysgu	£0k (0)	£0k (0)	£0k (0)	£0k (0)
Staff Cymorth	£2k (1)	£115k (8)	£0k (0)	£117k (9)
Cyfanswm	£2k (1)	£115k (8)	£0k (0)	£117k (9)

4. Goblygiadau Ariannol

Ar sail y cyllid sydd ar gael, sef cyfanswm o £1 miliwn a'r gwariant hyd yma o £117,000, gallai tanwariant sylweddol fod yn 2020/21. Mae'n anodd rhagweld lefel y diswyddiadau a fydd yn digwydd yn ystod gweddill y flwyddyn, fodd bynnag, yn seiliedig ar y wybodaeth bresennol, gallai gwariant pellach fod yn isel.

Yng ngoleuni'r tanwariant tebygol a sefyllfa heriol y gyllideb yn ystod y flwyddyn a wynebir gan y gyfarwyddiaeth Addysg, mae swm o £500,000 wedi'i glustnodi at ddefnydd posibl gwrthbwysu'n rhannol orwariant Addysg ar ddiwedd y flwyddyn. Pe bai lefel y gwariant yn erbyn y gyllideb diswyddo yn ystod gweddill y flwyddyn yn isel, byddai hyn yn dal i alluogi trosglwyddo swm i gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn, i'w ddefnyddio yn erbyn costau diswyddo ar gyfer ysgolion yn y dyfodol.

O ran gwybod a ydi cyllideb dileu swyddi o £1m yn parhau'n ddigonol, mae'n anodd rhagweld yn gywir a fydd yn ddigonol ai peidio wrth fynd ymlaen. Gydag effaith lawn y pandemig eto i'w weld, o ran lefelau ariannu yn y dyfodol, nid oes modd rhagweld lefel y diswyddiadau wrth fynd i 2021/22. Felly, byddai'n ddoeth ar hyn o bryd, mae'n debyg, i gadw cyllideb o £1m ac o bosibl ategu at hyn â chronfeydd wrth gefn, pe bai angen. Bydd y sefyllfa hon yn parhau i gael ei hadolygu, wrth i'r fformiwla ariannu ysgolion 2021/22 gael ei pharatoi ac hefyd unwaith y bydd yr alldro terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn hysbys.

5. Argymhelliad

Nodi'r sefyllfa bresennol o ran y gyllideb dileu swyddi gyfun yn 2020/21.

Fforwm Cyllideb Ysgolion Caerdydd
Taliad Gwella Anghenion Cymhleth

Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Mercher 25 Tachwedd 2020
Amser y cyfarfod:	8.30am
Lleoliad:	Microsoft Teams

1. Diben yr adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi manylion am y gwariant ar Daliadau Gwella Anghenion Cymhleth (TGAC) yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 a'r goblygiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn.

2. Cefndir a Chyd-destun

Yn 2019/20, cyfanswm y Taliadau Gwella Anghenion Cymhleth a ddirprwywyd i gyllidebau ysgolion oedd £10.474 miliwn. Erbyn diwedd y flwyddyn cyfanswm y TGACau oedd £12.627 miliwn yn adlewyrchu taliadau yn ystod y flwyddyn o £2.153 miliwn. Roedd cyllideb o £1.5m wedi'i neilltuo i ariannu'r TGAC yr oedd disgwyl iddyn nhw ddigwydd yn ystod 2019/20. Roedd y gyllideb yn annigonol a chafwyd y gorwariant yn ôl gan ysgolion ar ffurf adfachiad ar ddiwedd y flwyddyn.

Ar gyfer 2020/21, cyfanswm y TGACau a ddirprwywyd i gyllidebau ysgol oedd £12.076 miliwn a'r gyllideb a neilltuwyd i dalu costau TGACau yn ystod y flwyddyn yn 2020/21 oedd £1.4 miliwn. Mae TGACau yn ystod y flwyddyn yn ariannu TGAC newydd, dyrchafiadau oed (Cynradd i Uwchradd; a Meithrin i Gynradd) a diwygiadau i lefelau cyllido.

Ni newidiodd y Cyllid Ychwanegol i bob categori ers 2019/20 gyda'r symiau blwyddyn lawn yn:

Meithrin £5,849
Cynradd A £14,624
Cynradd B £8,775
Uwchradd A £14,624
Uwchradd B £11,699

3. Materion Allweddol / diweddariad 2020-21

Cyfanswm y TGAC a ddirprwywyd i ysgolion oedd £12,076,000. Ar ddiwedd Hydref, cododd cyfanswm gwerth TGAC i £13,990,000, gan adlewyrchu'r taliadau o fewn y flwyddyn rhwng Ebrill 2020 a Hydref 2021 sef £1,914,000.

Neilltuir cyllideb gyfun o £1,400,000 i dalu costau TGAC yn ystod 2020/21. Felly, mae'r gyllideb hon eisoes wedi'i gorwario £514,000.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r hollt wybodaeth rhwng ysgolion Cynradd ac Uwchradd.

	Cyfanswm (ar ddiwedd Hydref)	Cynradd	Uwchradd
Cyfanswm TGAC	£13,990,085	£8,871,966	£5,118,119
TGAC dirprwyedig	£12,076,086	£7,447,858	£4,628,228
TGAC a dalwyd Ebr- Hyd	£1,913,999	£1,424,108	£489,891
Cyllideb gyfun ar gyfer TGACau yn ystod y flwyddyn	£1,400,000		
Gorwariant ar y gyllideb	£513,999		

Mae proffil y gwariant hyd yma'n awgrymu cynnydd cyfartalog o 15% ar TGAC 2019/20. Erbyn diwedd y flwyddyn, gallai cyfanswm TGAC fod yn £14,521,000 gan adlewyrchu taliadau o fewn y flwyddyn o £2,445,000. Byddai hyn yn orwariant o £1,045,000 yn erbyn y gyllideb gyfun a byddai'n cael ei adfer oddi ar Ysgolion Cynradd ac Uwchradd gan ddefnyddio'r fformiwla ADY wedi'i bwysoli i nifer y disgyblion ar gyfer pob ysgol fel sail ddyrannu.

4. Goblygiadau Ariannol

Y gorwariant presennol ar y gyllideb TGAC gyfun yw £514,000 ar ddiwedd mis Hydref. Y gorwariant a amcanestynnir ar ddiwedd y flwyddyn yw tua £1,045,000 a byddai hyn yn cael ei adfer oddi ar Ysgolion Cynradd ac Uwchradd gan ddefnyddio'r fformiwla ADY wedi'i bwysoli i nifer y disgyblion ar gyfer pob ysgol fel sail ddyrannu. Nid yw Ysgolion Arbennig yn cael eu cynnwys yn yr adfachiad am nad ydynt yn cael budd o'r gyllideb TGAC gyfun.

Dylid nodi bod amcanestyniad CNE 2020/21 yn adlewyrchu'r duedd o gynyddu taliadau TGAC i ysgolion bob blwyddyn. Mae'r cynnydd rhagamcanol o 15% mewn gwariant diwedd blwyddyn eleni yn cymharu â chynnydd o 13% yn 2019/20 ac 20% yn 2018/19.

Mae'n ymddangos bod y gyllideb gyfun o £1,400,000 ar gyfer 2020/21 yn annigonol i ateb y galw am TGACau yn ystod y flwyddyn, a bydd yn parhau i fod felly oni ddigwydd un o'r canlynol:

- Lleihad yn nifer y disgyblion a gaiff eu cyflwyno ag Anghenion Cymhleth
- Swm y cyllid i bob Taliad Gwella Anghenion Cymhleth yn cael ei adolygu a'i leihau.
- Swm y gyllideb gyfun yn cael ei gynyddu.

5. Argymhelliad

Nodi'r sefyllfa alldro a ragamcennir ar TGACau ar gyfer 2020/21.

Fforwm Cyllideb Ysgolion Caerdydd
Cronfa Gyd-Gyflenwi

Dyddiad y cyfarfod:	25 Tachwedd 2020
Amser y cyfarfod:	8.30am
Lleoliad:	Microsoft Teams

1. Diben yr adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw nodi cyfanswm terfynol y gwariant yn ymwneud â'r Gronfa Gyd-Gyflenwi (CGG) a amcangyfrifir ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth 2021.

2. Cefndir

Mae'r Tîm Cyllid Addysg yn monitro'r costau ariannol a'r rhesymeg dros ad-daliadau yn rheolaidd. Yn ystod Ebrill 2020, cyflwynodd ysgolion adroddiadau i RhCLI i gael eu digolledu am gostau'n ymwneud â CGG yn gysylltiedig â mis olaf 2019/20 ac roedd y costau ychwanegol hyn yn dod i gyfanswm o £380,000. Nodir y rhain ar wahân isod er mwyn sicrhau tryloywder.

3. Diweddariad 2020/21

Mae'r tablau isod yn amlygu gwerth yr hawliadau a gyflwynwyd i'r CGG a'r sefyllfa net ar gyfer y flwyddyn, sef tanwariant posibl o £1.130 miliwn.

Cyfanswm cyfraniadau ar gyfer 20/21	£4.39m
Hawliadau Salwch	£1.67M
Hawliadau Mamolaeth	£1.33M
Hawliadau Eraill (gan gynnwys ataliadau)	£0.26M
Cyfanswm Costau i'r CGG	£3.26m
Cyfanswm tanwariant ar gyfer 20/21	£1.13M

Mae'r balans presennol a gariwyd ymlaen i 2020/21 yn adlewyrchu diffyg o £499,000.

	£m
Balans agoriadol	0.499
Costau 2019/20 a Ad-dalwyd yn 2020/21	0.380

Tanwariant Net 2020/21	(1.130)
Balans Rhagamcanol ar 31 Mawrth 2021	(0.251)

4. Goblygiadau Ariannol

Tybiwyd o'r blaen y byddai'r rhwymedigaeth hanesyddol yn cael ei hadennill drwy danwariant yn erbyn cyllid ar gyfer 2020/21. Mae'r amcanestyniadau presennol yn dangos bod hyn yn dal yn debygol o ddigwydd, ond mae'n parhau'n aneglur ynghylch effaith lawn pandemig COVID-19.

Hyd yma, mae cyllid caledi Llywodraeth Cymru wedi ad-dalu costau asiantaeth/yswiriant o ran absenoldeb yn deillio o COVID. Mae hyn wedi lliniaru unrhyw effaith COVID19 ar y ffigurau CGG, ac wedi lleihau'r angen cyffredinol i hawlio o'r gronfa. Mae risg sylweddol o hyd o ran cyflwyno dychweliadau mewn modd amserol. Mae'r ffigurau uchod yn rhagdybio y bydd gweddill y flwyddyn yn parhau'n gyson o ran lefel yr absenoldebau a'r mynediad at gyllid Llywodraeth Cymru a welwyd hyd at ddiwedd Mis 6. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro'n ofalus weddill y flwyddyn.

Byddai'r gwarged rhagamcanol presennol o £251,000 yn cael ei gadw ar gyfer y blynyddoedd i ddod er mwyn darparu clustogfa ar gyfer yr ansicrwydd a allai godi ac, o bosibl, i leihau'r cynnydd yn y cyfraddau gofynnol yn 2021/22.

5. Argymhelliad

Argymhellir y dylid nodi'r sefyllfa ariannol a nodir yn yr adroddiad hwn a bod aelodau'r CGG yn parhau i ddychwelyd yr holl hawliadau ad-dalu drwy gydol y flwyddyn er mwyn hwyluso monitro mwy cywir yn ystod y flwyddyn.